Casgliad o ysgrifau ar hanes

# EGLWYS ANNIBYNNOL Y BORO, LLUNDAIN

# A RHAI O'I PHOBL

## a rhai hanesion cysylltiedig

Daw'r deunydd, bron i gyd, o'r canlynol:-

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru* (Rees a Thomas)
Cyf.IV (1875) a Cyf.V (1891) *(H.E.A.C.)*

*Y Cofnodydd* Rhif 1 Tachwedd 1908. Misolyn Eglwysi Annibynnol
Cymraeg Llundain (dim ond 8 rhifyn a gyhoeddwyd)

*Llawlyfr Cyfarfodydd Llundain* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)
(1937) *(Ll.C.Ll.)*

*The Evangelical Magazine* (June & July 1827)

*Bywyd a Gwaith Gwilym Bowyer* (W.Eifion Powell: 1968)

*Y Bywgraffiadur Cymreig* Cyfrol 1951-1970 *(Bywg.C.)*

*Y Tyst* - wythnosolyn yr Annibynwyr Cymraeg

*Cylchgrawn Annibynwyr Cymraeg Llundain* *(Cylchgrawn)*

Adroddiadau Blynyddol yr Eglwys *(Adr.)*

Casglwyd ynghyd gan Morfudd Jenkins, Mai 2004

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1 | Teitl, a ffynonellau'r ysgrifau |
| 2 | Cynnwys |
| 3, 4 | Rhagymadrodd gan Morfudd Jenkins. |
| **ADRAN A.** | **Hanes yr Eglwys** |
| A 1-6 | Eglwysi Cymreig Annibynnol Llundain hyd 1875. *H.E.A.C.* Cyf IV |
| A 7-9 | Yr un eglwysi rhwng 1875 ac 1891 *H.E.A.C.* Cyf. V (1891) |
| A 10-13 | Y Boro *Ll.C.Ll.* (1937) Gan Richard Wood |
| A 14, 15 | Capel y Boro *Y Tyst,* Ebrill 1, 1985 Gan E B Byron Jones |
| A 16, 17 | Rhagor o'r hanes |
| A 18, 19 | Gwahanol gyfnodau |
| **ADRAN B.** | **Y Boro a Chenhadaeth Dramor** |
| B 1, 2 | The Boro Chapel and Overseas Missions. Talk, mainly about Myfanwy Wood and David C Evans, by Morfudd Jenkins in 1995. |
| B 3 | Myfanwy Wood Autograph 1927 |
| B 4 | Myfanwy Wood *Bywg.C. gan* Kenneth E Jones |
| B 5 | David C Evans *Cylchgrawn* |
| **ADRAN C.** | **Gweinidogion** |
| C 1, 2 | David Simon Davies (1821-1836). *Evangelical Magazine* (1827) |
| | Gweler hefyd A 2 a 3-4 *(H.E.A.C)* ac A 12, 13 *(Ll.C.Ll.)* |
| | David Davies (1831-1866) Gweler A 2, *(H.E.A.C.)* |
| | Rice Lewys Thomas (1875-1888) A 7, 8 *(H.E.A.C.)*ac A 13 *(Ll.C.Ll.)* |
| C 3 | D C Jones (1890-1936) Llythyr oddiwrtho (1890) |
| C 4, 5 | eto *Cofnodydd,* Tachwedd1908. Gan Machreth Rees |
| | eto Gweler A 10 (llun) ac A 13 *(Ll.C.Ll.)* |
| C 6,7 | eto *Y Tyst,* Ebrill 11, 1985. Gan E B Byron Jones |
| C 8-10 | Gwilym Bowyer (1939-1943) O lyfr W.Eifion Powell (1968) |
| C 11 | eto *Bywg.C.* Gan R Tudur Jones |
| C 12, 13 | Ifor M.Edwards (1946-1978) *Y Tyst,* Ion.11, 1979. Gan E.B.B.J. |
| C 14 | eto *Cylchgrawn* &c. |
| C 15,16 | D.Gwylfa Evans (1998- |
| C 17 | Lluniau lliw |
| **ADRAN D.** | **Rhai o bobl y Boro** |
| D 1, 2 | Swyddogion yr Eglwys |
| D 3-13 | Amryw ddarnau o'r *Cylchgrawn* ac ysgrifau a lluniau o'r *Tyst.* |
| **ADRAN E.** | **Bywyd Cymreig yn Llundain** |
| E 1-7 | "Trigain mlynedd yn Llundain" Atgofion E.B.Byron Jones *Tyst* 1986 |

## RHAGYMADRODD

Dywedodd Tegid Jones, Ysgrifennydd presennol Eglwys y Boro, wrthyf fwy nag unwaith yn ddiweddar ei fod yn gresynu nad oedd yr eglwys honno wedi cadw'i hanes yn ddiogel. Yna fe ofynnodd i mi a wyddwn rywbeth o hanes y Parchg D C Jones a fu'n weinidog Eglwys y Boro am gyfnod maith. Sylweddolais fod gennyf lawer o hanes y Boro mewn gwahanol lyfrau ac ysgrifau yn fy nghartref. Felly penderfynais fynd ati i wneud y casgliad hwn, gydag ychydig o gopïau ohono. Y Boro yw'r unig Eglwys Annibynnol Gymraeg yn Llundain yn awr na chyhoeddwyd llyfr o'i hanes erioed, ac eto hi yw'r hynaf o bell ffordd. Wedi imi ddechrau ar y gwaith, gofynnais i Tegid Jones a oedd ganddo ragor o wybodaeth ar gyfer y casgliad hwn. Bu mor garedig a chwilota, ac yna roi benthyg i mi tua 50 o Adroddiadau'r Eglwys (yn ysbeidiol o 1886 ymlaen, gydag ambell gyfnod o ryw ddeng mlynedd heb yr un) ac ambell beth arall. Dymunaf ddiolch yn fawr iddo am y cymorth gwerthfawr hwn. Diolchaf hefyd i Mr Meurig Owen, Lewisham (sydd wedi gwneud astudiaeth arbennig iawn o hanes Eglwysi Cymraeg Llundain a chyhoeddi dau lyfr amdanynt) am ddanfon copi o dudalennau o'r *Evangelical Magazine* am 1827 oedd yn cynnwys ysgrif goffa i'r Parchg D S Davies, gweinidog cyntaf y Boro. Ar C 1 ceir cyfle i ddarllen yn Saesneg hanes dechreuadau'r achos, ac ar C 2 y mae talfyriad o'r hanes am D S Davies a roddwyd yn yr ysgrif honno.

Pan drefnwyd i gynnal Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Llundain ym 1937, penododd y Pwyllgor Lleol y Parchg Ben Davies, yr emynydd, i fod yn Olygydd y Llawlyfr fyddai'n cynnwys hanes eglwysi'r enwad yn Llundain. Treuliodd ef yr wyth mlynedd olaf o'i oes yn Llundain wedi iddo ymddeol o fod yn weinidog Panteg, Ystalyfera. Yn ystod misoedd olaf 1936, bu'n chwilota'n ddiwyd i hanes crefyddol y Cymry yn Llundain dros rai canrifoedd. Llwyddodd i baratoi rhai penodau gwerthfawr iawn i'r llawlyfr cyn iddo farw, wedi cystudd byr, yr wythnos gyntaf o 1937. Dyma deitlau tair pennod sy'n dwyn ei enw:-

"Dechrau pregethu Cymraeg yn Llundain"
"Yr Eglwys Annibynnol gyntaf – Lambeth"
"Ein Cyfundeb".

Yn y bennod ar Eglwys Lambeth, fe ddywed

> *"Er fod Eglwys Lambeth wedi llwyr ddiflannu ers blynyddoedd diau ei bod o ran ei gwraidd yn gorwedd dan Eglwysi Falmouth Road (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) a'r Boro. Bu'n gartref crefyddol i nifer fechan o Gymry syml a thlawd am tua chan mlynedd, ond bu farw heb ymganghennu i'r un Eglwys Annibynnol arall; ac er mai hi yw'r hynaf o eglwysi'n henwad yma, nis gellir ei galw'n fam ychwaith. <u>Y Boro yw'r Fam.</u>"*

Nid oes enw awdwr ar gyfer y bennod o flaen y tair y cyfeiriwyd atynt uchod, ond teimlaf yn weddol siwr mai Ben Davies fu'n casglu'r rhan helaethaf o'r hanes ar gyfer y bennod fawr honno hefyd. Ynddi ceir bwygraffiadau deuddeg o Annibynwyr cynnar o Gymru a fuont yn byw yn Llundain – o John Penri (1559-1593) i Abraham Rees (1743-1825). Ond dymunaf dynnu sylw yma at baragraff a geir yn agos i ddechrau'r bennod honno:-

> *"Mater arall o ddiddordeb, a ddylai gael ei gwybwyll yn rhywle, a chystal yma ag yn unman, yw mai yn Llundain yr argraffwyd y Beibl Cymraeg cyntaf. Argraffwyd Testament William Salesbury yn 1567 a Beibl Morgan yn 1588, yn Southwark, heb fod ymhell o'r fan lle y saif*

*Capel y Boro heddiw – yr ochr ddeheuol i'r afon. Yn Llundain hefyd yr argraffwyd ein llyfrau Cymraeg am ugeiniau o flynyddoedd. Yn y flwyddyn 1718 yr argraffwyd y llyfr cyntaf yng Nghymru, sef "Holl Ddyletswyddau Dyn" yng Ngwrecsam.*

Richard Wood, tad Myfanwy Wood, a fu'n aelod o'r Boro am ryw 70 o flynyddoedd, a luniodd hanes yr eglwys yn y Llawlyfr hwnnw, a gwelir ei ysgrif yn y casgliad hwn. Gwelir ei fod wedi cael llawer o'r hanes hwnnw o *"Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru" Cyf.IV* a ymddangosodd ym 1875. Mae'r hanes yn llawnach yn y llyfr hwnnw, a gwelir yn y casgliad hwn gopi o'r tudalennau sy'n ymwneud ag Eglwysi Llundain. Gwelir yno fod tair eglwys wedi deillio o'r Boro - Eglwys Fetter Lane (a symudodd yn ddiweddarach i King's Cross), Eglwys Hackney Road (gynt yn Aldersgate St., ac yn ddiweddarach yn Barrett's Grove) ac Eglwys Sloane St. (Radnor Walk erbyn hyn).

Bu E B Byron Jones yn aelod selog o'r eglwys am ryw 70 o flynyddoedd hefyd, gan ddechrau rhyw hanner canrif yn ddiweddarach. Gwelir llawer ysgrif o'i eiddo yn y casgliad hwn, yn ogystal â theyrnged iddo wedi iddo farw. Ym 1985 ymddangosodd ysgrif o'i eiddo yn y *Tyst*, wedi'i rhannu i ddwy ran rhwng dau rifyn. Hanes yr eglwys o'r cychwyn hyd 1890 a geir yn y rhan gyntaf ac y mae'n ymddangos yn y casgliad hwn ar dudalennau A 14 a 15. Ond y mae'r ail ran yn ymwneud yn gyfangwbl â'r Parchg D C Jones, a gwelir hi ar C 4 a 5. Mae llawer mwy o fanylion am D C Jones yn yr ysgrif hon nag yn yr ysgrifau eraill sydd gennyf amdano. Bu Byron Jones o dan ei weinidogaeth yma am lawer blwyddyn. Priododd â Marjorie ym 1928 ac yr oedd hithau wedi'i magu yn y Boro ac yn perthyn i'r gweinidog – ei mam yn nith iddo(?). Gan fod D C Jones yn ŵr gweddw am rai blynyddoedd a'i unig blentyn wedi marw hefyd, tybiaf y byddai teulu Marjorie wedi bod yn agos iawn iddo. Yn y Cynnwys, nodaf o dan Adran C (Gweinidogion) y prif gyfeiriadau a geir i'r gweinidogion cynnar mewn ysgrifau yn Adran A.

Ar ddechrau Adran D, gwelir rhestr o brif swyddogion yr eglwys, hyd y gwyddom. Yna casglwyd ynghyd ysgrifau am ychydig o'r rhai fu'n flaenllaw yn yr eglwys yn ystod y deugain mlynedd diwethaf. Peth hynod yw y magwyd nifer ohonynt yn yr eglwys a chawsant fyw dipyn dros 80 o flynyddoedd gan barhau yn selog i'r achos yma. Ysgrifau ffarwel yw llawer ohonynt yn anffodus – wedi eu llunio pan oedd y person neu'r personau yn symud o Lundain neu wedi iddynt farw, ond bydd llawer yn cofio amdanynt a'u cyfraniad gwerthfawr i waith yr eglwys hon. Blin gennyf fod ambell un o ffyddloniaid presennol yr eglwys heb gael sylw arbennig, er bod eu cyfraniad hwy yn dra gwerthfawr y dyddiau hyn.

Y mae hanes cyfoethog iawn i Eglwys y Boro dros fwy na dwy ganrif. Da yw inni gael ein hatgoffa o'r bendithion mawr a ddeilliodd ohoni gan obeithio y byddant yn ysbrydiaeth inni eto.

Morfudd Jenkins
31 Mai 2004

